

Mantell Yr Wyddgrug

Beth yw Mantell Aur Yr Wyddgrug?

Crëwyd Mantell Aur Yr Wyddgrug o aur ac fe'i darganfuwyd yn nhref Yr Wyddgrug yn 1833. Mae'n enghraifft brin o grefftwaith aur o'r Oes Efydd yn y DU ac fe'i cedwir yn barhaol yn Yr Amgueddfa Brydeinig, gan ei bod mor bwysig ac unigryw.

Y Cefndir

Tua 1900 - 1600 CC (tua 300 mlynedd ar ôl claddu Dyn Brymbo) lluniodd gweithiwr metel profiadol fantell, gan ddefnyddio un ingot o aur. Curodd batrymau ynddo gan greu patrwm tebyg i nifer o linyddau gleiniau.

Yn 1833, roedd gweithwyr o'r wyrwys lleol yn llenwi pwll gro ar ymyl y ffordd. Roedden nhw angen mwy o gerrig felly aethant ati i durio llethr cyfagos. Yng nghanol y llethr, roedd bedd ag iddo ymyl carreg, gyda sgerbwdd a darnau wedi malu o'r fantell ynddo, a gleiniau ambr oedd wedi eu gosod mewn rhesi dros y fantell.

Siambwr gladdu o'r Oes Efydd oedd y llethr mewn gwirionedd ac roedd yn mesur 28 metr mewn diamedr. Yn anffodus, collwyd y sgerbwdd a'r gleiniau i gyd, ar wahân i un, sy'n drueni mawr! Mae'n bosibl y byddem wedi gallu dysgu mwy am wisgwr y fantell drwy weddillion y sgerbwdd, er eu bod mewn cyflwr gwael. Yn ffodus, llwyddodd Yr Amgueddfa Brydeinig i brynu pob rhan fechan o'r fantell gan fforman y gweithwyr a'r diolch yn rhannol am hynny i'r Parchedig Charles Butler Clough, y ficer lleol a gofnododd y darganfyddiad gan gyhoeddi adroddiad manwl amdanynt.

Daeth y gweithwyr o hyd i bethau eraill hefyd sef cyllell o'r oes efydd, sribedi o efydd, a darnau cyfartal o ddefnydd, yn ogystal â thystiolaeth am ail fantell. Efallai bod y defnydd ynghlwm wrth y fantell ond does dim modd gwybod hynny. Ar y dechrau, credai arbenigwyr y byddai'r fantell wedi ei gwisgo o dan arwisg Pennaeth. Yn ddiweddarach, awgrymwyd mai dwyfronneg, addurn a wisgid gan geffyl ydoedd.

Yn y 1950au, gwnaeth archeolegydd ym Mhrifysgol Lerpwl ac yna gwarchodwr yn Yr Amgueddfa Brydeinig ymchwil newydd a sylweddoli, oherwydd ei gynllun, mai merch fain neu blentyn fyddai wedi

gwisgo'r fantell dros eu hysgwyddau. Byddai wedi cyfyngu'n sylweddol ar y gallu i symud rhan uchaf y fraich, felly dim ond ar achlysuron arbennig y'i gwisgid.

Beth mae Mantell Yr Wyddgrug yn ddweud wrthym?

Mae'r fantell yn eitem unigryw a soffistigedig iawn sy'n dangos lefel uchel o sgil a chreffftwaith. Mewn gwirionedd, ystyrir y fantell yn un o'r enghreifftiau gorau o waith metel Yr Oes Efydd yn Ewrop.

Byddai creu'r fantell wedi golygu llawer iawn o waith dwys. Roedd cymdeithas Yr Oes Efydd yn ddigon datblygedig i bobl arbenigo mewn sgiliau a masnach benodol megis gwaith metel. Byddai'n rhaid i'r gwneuthurwr fod wedi bod yn brofiadol iawn i lunio gwaith o'r fath.

Fe'i gwisgid i ddangos cyfoeth a statws. Mae'n bosibl fod cyfoeth y gwisgwr wedi deillio o fwynglawdd copr Y Gogarth.





Gweithgareddau

1. Gwnewch gacen mantell aur, neu addurno cacennau bach, neu fisged fawr. Cadwch beth i ni!



2. Ysgrifennwch, tynnwch lun, neu actiwch stori o safbwynt y gwisgwr.

Pam gawson nhw'r fantell? Gan bwy? Pa bryd oedden nhw'n ei gwisgo? Ble roedden nhw'n ei chadw? Sut ydych chi'n meddwl byddai'r gwisgwr yn ymateb i ddarganfod y fantell? Sut ydych chi'n meddwl byddai'r gwisgwr yn teimlo fod y fantell yn cael ei harddangos?



3. Cloddiwch am eich trysor eich hunain. Fe ddefnyddiom ni fwrdd chwarae enfawr gyda mwd a chompost ynddo er mwyn cloddio am ein trysor ni. Dewis arall fyddai turiwr a thryciau!

4. Defnyddiwch does chwarae neu gwnewch eich toes halen eich hunain i greu'r patrymau ar y fantell.



Darganfyddwch fwy:

https://research.britishmuseum.org/research/collection_online/collection_object_details.aspx?objectId=808751&partId=1

<https://museum.wales/cardiff/whatson/6735/The-Mold-Gold-Cape/>

https://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/museum/treasures/moldcape_e.pdf